
CYFLEOEDD AR GYFER TWF

ADRODDIAD CNYDAU A GARDDWRIAETH NFU CYMRU



NFU CYMRU



RHAGAIR

Er mai dim ond tua 6% o dir amaethyddol Cymru a ddefnyddir ar gyfer cnydau âr a chnydau garddwriaethol, mae'r ddau sector yn gwneud cyfraniad llawer mwy na'r disgwyl ac yn cynhyrchu rhai o gynhyrchion mwyaf gwerthfawr ac adnabyddus Cymru.

O Datws Cynnar Sir Benfro PGI, sy'n cael eu marchnata drwy'r prif fanwerthwyr, i haidd brag a ddefnyddir yn ein microfragdai a'n distyllfeydd, mae'r sectorau âr a garddwriaeth yn sail i'r gorau oll o fwyd a diod Cymru.

Mae cyfleoedd i dyfu marchnadoedd yn y sectorau manwerthu a chyfanwerthu, lle ceir galw mawr am gynnyrch o ansawdd uchel sy'n ystyriol o'r hinsawdd. Mae cyfleoedd hefyd i gynyddu'r cyflenwad o ffrwythau a llysiau a dyfir y ng Nghymru i'n hysgolion, ein hysbytai a sefydliadau cyhoeddus eraill.

Fel gwlad sy'n enwog am ei da byw, mae ein ffermwyr âr yn rhan annatod o'r gwaith o gynhyrchu cig coch a chynhyrchion llaeth yng Nghymru. Maent yn cyflenwi bwyd anifeiliaid diogel a dibynadwy sy'n seiliedig ar rawn, ynghyd â sgil-gynhyrchion eraill i ategu deietau sy'n seiliedig ar laswellt, yn ogystal â deunyddiau hanfodol ar gyfer gwasarn da byw. Mae hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar nwyddau wedi'u mewnforio, am gost economaidd ac amgylcheddol is.

Mae sectorau âr a garddwriaeth Cymru ymhlith y sectorau mwyaf mentergarol, cynaliadwy ac uchelgeisiol ym myd amaeth heddiw. Gyda digonedd o gyfleoedd i dyfu, mae angen fframwaith polisi a rheoleiddio galluogol a chefnogol er mwyn helpu'r sectorau i wireddu eu potensial.

Mae'r Adroddiad Polisi hwn gan NFU Cymru yn amlinellu'r cyfleoedd hyn, yn ogystal â rhai o'r heriau sy'n wynebu ffermwyr yng Nghymru, ac yn cyflwyno argymhellion allweddol i helpu'r sectorau i dyfu. Mae Bwrdd Cnydau a Garddwriaeth NFU Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y sectorau âr a garddwriaeth yng Nghymru.

Tom Rees,
Cadeirydd Bwrdd Cnydau a Garddwriaeth NFU Cymru

CYFLWYNIAD

Mae ffermio yn sylfaen i sector bwyd a diod Cymru, sy'n cael ei gydnabod ledled y byd, sy'n werth £10.2 biliwn i economi Cymru, sy'n cyflogi 223,500 o bobl ac sydd wedi ennill dros 200 o Wobrau 'Great Taste' rhyngwladol.

Mae cynhyrchwyr garddwriaethol ac âr yn arwain y ffordd o ran cynhyrchu bwyd sydd wedi ennill gwobrau, wedi'i ategu gan hanes cyfoethog o gynhyrchu lleol a chynaliadwy. Mae cennin Cymreig, seidr Cymreig traddodiadol a gynhyrchir gan ddefnyddio afalau'r genedl, Tatws Cynnar Sir Benfro ac Eirin Dinbych yn ddim ond rhai o'r cynhyrchion sydd â Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) a Dynodiad Tarddiad Gwarchodedig (PDO) a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru.

Mae'r ddau sector hefyd wedi gweld ymrwymiad cynyddol gan y cyhoedd yng Nghymru, yn ogystal â buddsoddiad cynyddol yn y gadwyn gyflenwi. O'r dros 40% o bobl yng Nghymru sy'n defnyddio siopau fferm a chynlluniau blychau llysiau yn rheolaidd, i fuddsoddiadau cyfalaf diweddar ym maes prosesu grawnfwydydd yn y DU, mae'r sectorau âr a garddwriaethol, yn gwbl briodol, yn ennill cydnabyddiaeth am y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth sicrhau twf economaidd. Mae gan amaethyddiaeth Cymru yn unig Werth Ychwanegol Gros (GVA) o dros £700 miliwn ac mae wedi creu bron i 50,000 o swyddi, yn bennaf yng nghefn gwlad Cymru.

Bydd newid hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a newidiadau mewn deiet tuag at fwydydd maethlon, carbon isel yn cynyddu'r galw am rawn, codlysiau, ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yng Nghymru, gartref a thramor.

Fodd bynnag, mae'r sector yn wynebu heriau. Er enghraifft, nododd adroddiad Monitor Cydnerthedd Hinsawdd Bwyd a Diod Cymru chwe risg fawr i gynhyrchu bwyd domestig a chadwyni cyflenwi, gan gynnwys tywydd eithafol. O dywydd poeth eithriadol a chyfnodau hir o dywydd sych, i symiau digynsail o law a llifogydd, mae ffermwyr yng Nghymru ar reng flaen effeithiau'r hinsawdd, sy'n rhoi cnydau dan straen ac yn cynyddu'r galw am ddyfrhau.

Mae ffermwyr Cymru hefyd yn gorfod ymdopi â chostau mewnbwn cynyddol ac anwadal. Mae'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi achosi aflonyddwch digynsail i nwyddau byd-eang, ac mae cynhyrchwyr âr a garddwriaethol wedi gweld prisiau gwrtaith yn codi bron i 40%, gan eu gadael yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch fforddiadwyedd cynhyrchu cnydau yn y dyfodol.

Mae tegwch yn y gadwyn gyflenwi yn parhau i fod yn destun pryder. Gan mai derbynwyr prisiau yw cynhyrchwyr, maent yn agored i arferion gwael ac enillion isel yn y farchnad, ac yn aml nid ydynt yn gwybod beth yw gwerth eu cynnyrch ar y diwrnod y mae'n gadael y fferm.

Gyda'i gilydd, mae'r heriau hyn yn tanseilio hyder cynhyrchwyr, gan arwain at effeithiau hirdymor i ddefnyddwyr, gan gynnwys prisiau bwyd uwch a'r perygl o silffoedd gwag. Mae NFU Cymru yn glir bod manteisio ar y cyfleoedd twf sy'n bodoli yn gofyn am ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sectorau, drwy greu'r amgylchedd polisi a rheoleiddio cywir.

Yn yr adroddiad polisi hwn, mae NFU Cymru yn nodi'r rhwystrau i dwf a sefydlogrwydd sy'n wynebu'r ddau sector ac yn cyflwyno atebion i sicrhau y gallant dyfu a ffynnu. O gael y cymorth cywir, mae sectorau cnydau a garddwriaeth Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu bwyd iach a chynaliadwy i gymunedau lleol, cryfhau diogelwch bwyd a thyfu ein heconomïau lleol a chenedlaethol.



Y CYNHYRCHION

Er bod y DU bron yn gwbl hunangynhaliol o ran cnydau sylfaenol fel ceirch, haidd a gwenith, mae hunangynhaliaeth o ran llysiau a chnydau salad wedi gostwng i lai na 60%, ac mae cynhyrchiant domestig o ffrwythau brodorol oddeutu 40%.

Mae cynhyrchwyr âr a garddwriaethol Cymru yn darparu amrywiaeth o gynhyrchion sy'n hanfodol i ddeiet iach, maethlon a chytbwys. Mae ffrwythau a llysiau a gynhyrchir yng Nghymru yn cyfrannu at y pump y dydd a argymhellir ac yn ffynhonnell ddibynadwy o fitaminau a mwynau. Yn y cyfamser, mae cnydau âr yn cynnig amrywiaeth o fuddiannau iechyd, o geirch sy'n helpu i ostwng colesterol i datws sy'n hybu iechyd y perfedd, ac mae datblygiadau arloesol diweddar wedi addasu'r bwydydd sylfaenol hanesyddol hyn ar gyfer y farchnad fodern. Ochr yn ochr â hyn, mae cynhyrchu âr a garddwriaethol yng Nghymru yn darparu ffynonellau hanfodol o borthiant anifeiliaid, sy'n cael eu troi gan dda byw yn gig coch a chynhyrchion llaeth dwys o ran maetholion. Mae'r rhain yn darparu protein, fitaminau hanfodol a mwynau i ddefnyddwyr yng Nghymru ac ar draws y byd.

Er bod y ddau sector hyn wedi cael eu cyfyngu ers amser maith gan gapasiti'r tir, mae cyfuniad o uchelgais, technolegau newydd a gwaith caled wedi arwain at ehangu'r sector âr 25% dros y degawd diwethaf, i fwy na 110,000 hectar. Ar ôl cyfnod o ddirywiad, mae'r sector garddwriaethol hefyd yn tyfu'n raddol, gyda mentrau arallgyfeirio fel caeau 'casglu eich hun' a siopau fferm.

Fodd bynnag, mae sector bwyd a diod Cymru yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar ddeunyddiau crai a fewnforir o gyn belled â De America, yn ogystal ag o wledydd yr UE fel Sbaen a'r Iseldiroedd. Yng nghyd-destun anwadalrwydd cynyddol ac ergydion i'r gadwyn gyflenwi ryngwladol, pwysau ariannol ac amgylcheddol cynyddol ar y sectorau, poblogaeth fyd-eang sy'n tyfu, a galwadau sy'n cystadlu am adnoddau cyfyngedig, mae NFU Cymru yn glir na ellir cymryd diogelwch bwyd yn ganiataol mwyach. Mae cynnal a gwella cynhyrchiant bwyd domestig, yn hytrach na symud cynhyrchiant dramor, yn hanfodol er mwyn sicrhau cadwyni cyflenwi cydnerth.

Mae dadansoddiad diweddar yn awgrymu y gallai gwneud gwell defnydd o lai nag 1% o dir amaethyddol y DU alluogi'r DU i dyfu 66% o'i llysiau a'i ffrwythau, ac ychwanegu £1.9 biliwn at economi'r DU. Felly, mae gan gynhyrchwyr garddwriaethol Cymru botensial sylweddol i ddatblygu'r sector a sicrhau bod bwyd ffres a maethlon yn parhau i fod ar gael ac yn fforddiadwy i ddefnyddwyr.







ASTUDIAETH ACHOS

Colin Phillips

Ffermwr âr yn Rhaglan, Brynbuga




Mae Colin yn ffermwr âr tenant ym Sir Fynwy, lle mae'n tyfu ceirch uwd, gwenith melino a chnydau eraill, yn ogystal â phesgi gwartheg bîff gyda'i nai.

Mae tenantiaethau'n chwarae rhan hollbwysig drwy ddarparu llwybr hanfodol i newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc ymuno â'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Maent hefyd yn galluogi busnesau fferm i dyfu'n gynaliadwy drwy ychwanegu tir ar rent at eu busnes presennol, sy'n arfer pwysig i ffermwyr âr yng Nghymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni fu'r risgiau erioed mor uchel i Colin, gyda chostau mewnbynnau cynyddol, prisiau anrhagweladwy a digwyddiadau tywydd eithafol oll yn bygwth y llwyddiant sydd ei angen i gynnal tenantiaeth hyfyw. O ganlyniad, mae Colin wedi datblygu llygad craff am fanylion ac arloesedd. Mae hyn yn cynnwys sefydlu blodau gwyllt ochr yn ochr â'i gnydau er mwyn rheoli plâu, a phlannu'n hwyrach yn y flwyddyn i leihau faint o blaladdwyr sydd eu hangen. Fel ffermwyr sy'n gweithredu o dan drefniant ffermio ar gontract, maent yn gwbl ddibynnol ar fodel busnes proffidiol sy'n sicrhau llwyddiant amgylcheddol ac economaidd er mwyn cadw'r trefniant i fynd.

Mae Colin yn gofyn i Lywodraeth Cymru: *"Sicrhau bod polisi a chymorth y llywodraeth yn cael eu targedu at y ffermwr gweithredol sy'n ysgwyddo'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd, gan roi'r un mynediad at gynlluniau i ffermwyr nad ydynt yn berchen ar y tir y maent yn ei ffermio ag i'r rhai sy'n berchen arno."*



ASTUDIAETH ACHOS

Hooton's Homegrown siop fferm a chasglu ffrwythau yn Llanfairpwll, Ynys Môn

Wedi'i lleoli wrth ymyl fferm y teulu, mae siop fferm teulu Hooton ym Mrynsiencyn wedi bod yn gyrchfan boblogaidd ers amser maith i'r gymuned leol ac i ymwelwyr ag Ynys Môn. Datblygodd Michael a Rosalind Hooton y busnes ar ôl priodi ym 1968. I ddechrau, roeddent yn tyfu tatws a grawnfwydydd cyn ehangu i werthu cynnyrch yn lleol. Mae eu meibion, Andrew a James, bellach yn parhau i redeg a datblygu busnes y fferm ochr yn ochr â nhw.

O ganlyniad i'w llwyddiant, llwyddodd y teulu i agor ail siop fferm yng ngorsaf reilffordd eiconig Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch, ychydig fetrau yn unig o arwydd yr orsaf sydd mor enwog ledled y byd. Mae'r arwydd yn dathlu'r dref sydd â'r enw hiraf yn Ewrop, ac mae lleoliad y siop yn galluogi'r teulu i werthu i'r bron i ddwy filiwn o dwristiaid sy'n ymweld ag Ynys Môn bob blwyddyn.

Mae'r siopau fferm yn gwerthu ffrwythau a llysiau ffres y teulu, yn ogystal â chynnyrch lleol arall, gan gynnwys amrywiaeth o gynhyrchion cig, dofednod a llaeth. Maent hefyd yn gwerthu pasteiod cartref wedi'u gwneud gan ddefnyddio llysiau'r teulu, ac mae ganddynt ôl-gerbyd bwyd poblogaidd iawn sy'n gwerthu tatws pob. Yn ystod yr haf, mae'r teulu hefyd yn agor eu caeau ffrwythau "casglu eich hun" yn Llanedwen, dim ond tair milltir o Borthaethwy. Yno, gall ymwelwyr gasglu eu cynnyrch tymhorol eu hunain, gan gynnwys mefus, eirin Mair, riwbob a phys.

Mae'r busnes yn parhau i gael ei redeg gan y teulu ac yn darparu gwaith amser llawn a rhan-amser i bobl yn y gymuned leol. Mae James yn hyrwyddo cynnyrch y fferm ar y cyfryngau cymdeithasol o dan yr enw "The Rhubarb Farmer". Drwy'r cyfrif hwn, mae'n dathlu manteision prynu'n lleol a chadwyni cyflenwi byrrach, yn ogystal ag esbonio sut mae'r teulu'n tyfu eu cynnyrch. Gan fod ei fideos ar-lein yn denu miloedd o wylwyr yn rheolaidd, mae James wedi gallu cyfeirio ei ddilynwyr ar-lein at y siopau fferm. Mae'n hyderus bod dyfodol cryf i'r sector garddwriaeth yng Nghymru, gyda chyfle i ehangu cynhyrchiant wrth barhau i ffermio mewn ffordd gynaliadwy.

Mae James yn pwysleisio: *"Gyda'r cymorth a'r cymhellion priodol, mae gan y sector garddwriaeth botensial sylweddol i dyfu ac mae'n cyfrannu at gyflawni nifer fawr o amcanion cynaliadwyedd ac amgylcheddol, drwy leihau milltiroedd bwyd, hyrwyddo deietau cytbwys a datblygu economïau gwledig. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gydnabod a chefnogi pwysigrwydd enfawr y sectorau âr a garddwriaethol i Gymru, a hynny oherwydd y manteision niferus y maent yn eu darparu."*

Y GADWYN GYFLENWI

Mae'r amrywiaeth eang o gynydau a chynhyrchion garddwriaethol a gynhyrchir gan ffermwyr Cymru nid yn unig yn darparu'r deunyddiau crai sydd eu hangen i fodloni gofynion amrywiol y diwydiant bwyd a diod, ond maent hefyd yn amhrisiadwy wrth fwydo'r 1.4 miliwn o aelwydydd yng Nghymru.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cadwyni cyflenwi cydnerth yng ngoleuni'r tarfu geowleidyddol diweddar ac effeithiau'r hinsawdd.

Mae meithrin cydnerthedd o fewn y gadwyn gyflenwi yn dechrau drwy roi mwy o gydnabyddiaeth i'r rôl y mae cynhyrchwyr cynradd yn ei chwarae. Mae cefnogi cynhyrchwyr Cymru drwy ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach, caffael cyhoeddus a mynd i'r afael ag arferion annheg ymhlith y ffyrdd o feithrin yr hyder sydd ei angen i dyfu'r ddau sector, gan sicrhau'r manteision niferus sy'n ymestyn y tu hwnt i giât y fferm.

Mae cefnogi cynhyrchu bwyd yn lleol a chadwyni cyflenwi lleol yn cadw mwy o werth o fewn cymunedau gwledig, yn cynnal swyddi a busnesau lleol ac yn rhoi hyder i ddefnyddwyr yn safonau uchel ac olrheiniadwyedd cynnyrch o Gymru. Mae cadwyni cyflenwi byr hefyd yn cryfhau diogelwch a chydnerthedd bwyd, gan helpu i ddiogelu cymunedau ac amaethyddiaeth gynaliadwy rhag siociau economaidd allanol a tharfu byd-eang.

Mae mudiad 'Llysiau Cymru mewn Ysgolion', ochr yn ochr â mentrau eraill fel Larder Cymru, wedi gweld llwyddiannau gwirioneddol wrth gyflenwi ffrwythau a llysiau lleol i ysgolion ledled Cymru. Mae'r mentrau hyn yn cynnig llawer o fanteision, gan gynnwys gwell gwybodaeth am gynhyrchu bwyd, mwy o fynediad at fwyd maethlon a'r cyfle i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy leihau allyriadau gyda chadwyni cyflenwi byrrach.

Mae NFU Cymru wedi galw ers amser maith ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gynyddu faint o fwyd gan ffermwyr Cymru sy'n cael ei gaffael ar gyfer y sector cyhoeddus. Rydym yn cefnogi ymrwymiad maniffesto'r llywodraeth i gynyddu cyfran y bwyd a gaffaelir yn gyhoeddus sy'n dod o Gymru o 23% i o leiaf 50%, ac i sicrhau y bydd 25% o'r llysiau a weinir mewn ysgolion yng Nghymru yn dod o Gymru erbyn 2030. Drwy sicrhau bod bwyd iach, cynaliadwy, blasus a gynhyrchir yn lleol yn cael ei weini mewn ysgolion ac ysbytai, gall Llywodraeth Cymru roi hyder i ffermwyr a helpu i wireddu potensial sylweddol y sectorau âr a garddwriaethol,



gan wella cydnerthedd cadwyni cyflenwi bwyd yng Nghymru.

Mae tegwch yn y gadwyn gyflenwi yn bryder parhaus sydd wedi'i waethygu gan anwadalrwydd y farchnad a thywydd eithafol. Gan fod cynhyrchwyr yn gorfod derbyn y pris a gynigir, gall y pwysau ar y sectorau ddwysáu'r anghydbwysedd grym y mae cynhyrchwyr Cymru yn ei wynebu wrth drafod â phrynwyr. Mae gweithredu o fewn marchnad fyd-eang gydgysylltiedig yn golygu bod cynhyrchwyr âr, ac i ryw raddau gynhyrchwyr garddwriaethol, yn agored i ansicrwydd ac arferion annheg. Mae NFU Cymru yn glir bod yn rhaid i gamau gweithredu ddeillio o'r ymgynghoriad ledled y DU ar 'Berthnasoedd Cytundebol yn y Sector Cnydau Cyfunadwy'. Rhaid addasu Contract Rhif 1 yr AIC, a ddefnyddir ym mron pob gwerthiant grawn, er mwyn adlewyrchu cydbwysedd grym tecach, rhoi mwy o eglurder ynghylch diffiniadau penodol a sicrhau bod pob newid yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig a'i gytuno gan y ddwy ochr.

At hynny, rhaid galluogi ffermwyr i chwarae mwy o ran yn y broses samplu, gan gymryd sampl gynrychioliadol naill ai cyn llwytho neu ar adeg llwytho, i'w defnyddio fel sail ar gyfer talu neu ar gyfer prawf annibynnol os bydd anghydfod. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â Defra a rhanddeiliaid ledled y DU, gan gynnwys NFU Cymru, weithio i roi un pasbort digidol sy'n eiddo i'r diwydiant ar waith yn lle'r systemau niferus presennol sy'n eiddo i fasnachwyr unigol ac a reolir ganddynt.

Mae tegwch hefyd yn ymestyn i reoli risg, ac mae ffermwyr Cymru yn ymchwilio fwyfwy i ddulliau o rannu risg yn well ar draws y gadwyn gyflenwi.



ASTUDIAETH ACHOS

Siop Fferm Teulu Swan yn Fferm Ffrith, Clwyd



Mae Clive, Gail a'u mab Ed Swan yn rhedeg fferm deuluol amlgenhedlaeth yng Nghlwyd. Ers 2003, maent wedi bod yn croesawu'r gymuned leol ac ymwelwyr i Siop Fferm Teulu Swan.

Gan ymgorffori'r egwyddor o 'fetrau bwyd, nid milltiroedd', mae teulu Swan yn gwerthu eu cynnyrch eu hunain yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys eu cig eidion, sy'n adnabyddus am ei frithder, nodwedd y mae'r teulu'n ei phriodoli i ddiet o haidd gwanwyn a dyfir ar y fferm, yn ogystal â chynhyrchion porc sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n dod o foch sy'n cael eu bwydo â gwenith a dyfir ar y fferm. Yn ogystal, mae ganddynt gae blodau'r haul 'dewiswch eich rhai eich hun' poblogaidd iawn a llain bwmpenni flynyddol. Mae cynllun 'Swan Assured' y siop fferm yn cynnwys gwarant o garbon is, y mae'r teulu'n ei briodoli i arferion adfywiol megis lleihau'r gwaith trin tir, pori cylchdro a rhoi blaenoriaeth i wella iechyd y pridd.

Mae'r hunanddibyniaeth hon a'r model cynaliadwy o'r fferm i'r fforc wedi arwain at y teulu'n ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Amaethyddiaeth Gynaliadwy NFU Cymru / Wynnstay Group Plc a gwobr Cynhyrchydd y Flwyddyn o'r Fferm i'r Fforc yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru.

Mae Ed, sydd bellach yn aelod o Grŵp Datblygu'r Genhedlaeth Nesaf NFU Cymru, o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru weithio gyda'r sector i alluogi a gwobrwyo ffermwyr am fabwysiadu arferion cynaliadwy yn lleol o fewn y gadwyn gyflenwi.

Mae'n pwysleisio bod cadwyni cyflenwi cwbl weithredol yn hanfodol yng Nghymru, a'i bod yn hollbwysig cydnabod y gyd-ddibyniaeth rhwng pob rhan ohonynt.

"Mae capasiti prosesu yn hanfodol, ac mae cyflenwyr lleol fel ein siop fferm ni yn dibynnu ar fusnesau bach, megis lladd-dai bach lleol. Rydym eisoes wedi colli un lladd-dy bach. Os byddwn yn colli un arall, bydd ein cynaliadwyedd a'n busnes yn dioddef. O'r cnydau rydym yn eu plannu i fwydo'r gwartheg i'r cig eidion rydym yn ei gigydda yn y siop yn y pen draw, mae pob rhan yn dibynnu ar y lleill."



ASTUDIAETH ACHOS

Jason Llewellin Ffermwr âr yn St Ishmaels, Hwlffordd



Mae Jason yn ffermwr âr cymysg sy'n ffermio mewn partneriaeth â'i wraig, Ros, a'i rieni o dan yr enw J Llewellin & Co, maent yn tyfu gwenith, rêp had olew, haidd a ffa, ac yn gwerthu'r cynnyrch i felinau bwyd anifeiliaid yng Nghaerfyrddin, yn uniongyrchol i ffermydd lleol ac i'r gydweithfa Gymreig CCF.

Ers i deidiau a neiniau Jason ddechrau ffermio yn Nhrewarren ym 1955, mae'r teulu wedi ymdrechu'n gyson i ffermio mewn ffordd gynhyrchiol a phroffidiol, gan wella'r amgylchedd ar yr un pryd. Mae technoleg a seilwaith wedi bod yn ganolog i hyn. Mae teulu Llewellin wedi buddsoddi mewn adeilad storio cnydau 2,000 tunnell â system rheoli tymheredd awtomatig, yn ogystal â chynnal pum pwll mawr a grëwyd at ddibenion dyfrhau, sydd hefyd yn fannau bridio i amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Drwy ddefnyddio cnydau gorchudd, creu a rheoli cynefinoedd, ac arferion cynaliadwy eraill sy'n manteisio ar dechnolegau newydd, mae'r teulu wedi ennill cydnabyddiaeth am eu cynnyrch a'u dulliau ffermio. Enillodd y teulu Wobr Amaethyddiaeth Gynaliadwy gyntaf NFU Cymru / Wynnstay Group Plc.

Mae arferion cynaliadwy arobryn teulu Llewellin wedi diogelu a gwella eu hamgylchedd ers amser maith, ond maent yn dal i fod yn agored i dywydd eithafol, siociau economaidd ac aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi. Eleni, gwelodd Jason gynnyrch is na'r cyfartaledd oherwydd y tywydd sych eithriadol, a arweiniodd hefyd at lefelau dŵr isel iawn, neu ddim dŵr o gwbl, yn ei byllau. Ar ôl gosod tyrbin gwynt 20kW yn y gorffennol er mwyn lleihau dibyniaeth y fferm ar danwydd drud, mae Jason yn deall yn iawn faint o fuddsoddiad sydd ei angen i wella cydnerthedd.

Wrth edrych tua'r dyfodol, dywed Jason: "Bydd y sector âr yng Nghymru yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i'n hinsawdd newid, a bydd yr angen am rawn a phroteinau a dyfir gartref yn cynyddu yn unol â hynny. Rwyf am weld mwy o gynnyrch o Gymru'n cael ei fwydo i dda byw Cymru, nid yn unig er mwyn lleihau milltiroedd bwyd ac allyriadau, ond hefyd er mwyn lleihau ein dibyniaeth ar fewnforion a chadwyni cyflenwi anwadal."

Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i: "*Wthio'r ffiniau wrth gynllunio a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), gan gynnwys camau sy'n hybu'r gwaith o gynhyrchu cnydau âr a chnydau protein, ac ar yr un pryd yn ein galluogi i wella'r pridd a'n hamgylchedd.*"

MARCHNATA A MASNACH



Mae bwyd a diod o Gymru yn cael eu cydnabod yn fyd-eang, gyda marchnadoedd sefydledig yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Unol Daleithiau (UDA), a galw cynyddol yn y Dwyrain Canol ac Asia.

Disgwylir i'r galw byd-eang am gynhyrchion âr a garddwriaethol gynyddu oherwydd twf poblogaeth y byd, effaith newid hinsawdd sy'n peryglu hyfywedd cynhyrchu bwyd mewn rhai rhannau o'r byd, a dewisiadau defnyddwyr sy'n newid o blaid cynnyrch ffres a mwy cynaliadwy. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfleoedd sylweddol i sectorau âr a garddwriaeth Cymru dyfu os eir i'r afael â'r heriau presennol i fasnach.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae NFU Cymru wedi croesawu cynnydd Llywodraeth y DU o ran lleihau costau a rhwystrau masnachu gyda'r UE, a sicrhau mynediad i gynnyrch o Gymru i wledydd Cyngor Cydweithredol y Gwlff. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn gyson ei bwriad i feithrin cysylltiadau agosach â'r UE a phartneriaid masnachu rhyngwladol eraill.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rhaid amddiffyn a hyrwyddo ffermwyr Cymru, gan sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli mewn trafodaethau. Rhaid i gytundebau masnach yn y dyfodol sicrhau cydbwysedd rhwng amaethyddiaeth a sectorau eraill o'r economi. Yng nghyd-destun effaith barhaus a chronnus cytundebau masnach ag Awstralia, Seland Newydd ac UDA, ni ellir parhau i ddefnyddio sectorau ffermio Cymru a'r DU fel erfyn bargeinio mewn trafodaethau masnach ryngwladol.

Ym mis Mai 2026, cafodd sectorau âr a da byw y DU ergyd drom yn sgil cytundeb y DU ac UDA, pan roddwyd mynediad di-dariff i farchnad y DU i UDA. Ar y pryd, cydnabu'r diwydiant fod hyn yn cael ei ystyried yn faich angenrheidiol er mwyn amddiffyn yr economi ehangach, gyda'r DU yn cael gostyngiadau tariff cyfatebol mewn sectorau allweddol eraill, megis cynhyrchu ceir a dur. Fodd bynnag, mae'n amlwg na ellir ildio rhagor o fynediad heb beryglu ffermio yn y DU a'n diogelwch bwyd fel cenedl. Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn eu sylwadau a'u trafodaethau eu hunain, fod yn barod i wrthod consesiynau amaethyddol pellach a bod yn wyliadwrus wrth fonitro unrhyw ganlyniadau niweidiol sy'n deillio o gytundebau masnach yn y dyfodol.

Mae'n amlwg y dylai fod gan Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru rôl lawer mwy arwyddocaol yn y ffordd y caiff cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol eu negodi a'u cymeradwyo. Gan fod gweithredu llawer o'r rhwymedigaethau sy'n deillio o gytundebau masnach fel arfer yn ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, sef amaethyddiaeth, diogelwch bwyd, diogelu'r amgylchedd ac elfennau o fioddiogelwch, cred NFU Cymru fod yn rhaid cael deialog gynnar a pharhaus rhwng San Steffan a Bae Caerdydd o'r cychwyn cyntaf.

Diben hyn yw sicrhau bod unrhyw faterion neu effeithiau posibl anghymesur ar Gymru yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl, gan ganiatáu i atebion priodol gael eu canfod ar lefel y DU ac ar lefel ddatganoledig. Er bod masnach ryngwladol yn fater a gedwir yn ôl, mae'r gwaith o graffu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â materion masnach ryngwladol bellach yn nwylo Pwyllgor Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Materion Allanol y Senedd. Rhaid i'r Pwyllgor fod yn barod i weithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant wrth werthuso effaith barhaus cytundebau masnach y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru, yn enwedig drwy'r Pwyllgor Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Materion Allanol a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Materion Gwledig, hefyd ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r cyfleoedd i gynyddu'r galw am gynhyrchion âr a garddwriaethol o Gymru, a nodi'r cyfleoedd hynny.

Cyfrifoldeb datganoledig Gweinidogion Cymru yw cynnal a gwella bioddiogelwch ar y ffin yn ein porthladdoedd. Mae clefydau a phlâu planhigion yn parhau i gylchredeg mewn gwledydd rydym yn masnachu â nhw'n rheolaidd, a dim ond drwy fwlch mewn mesurau bioddiogelwch y gallai unrhyw rywogaethau estron goresgynnol a phathogenau gyrraedd Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob porthladd mynediad i Gymru yn cynnal y safonau bioddiogelwch uchaf a bod ganddynt adnoddau digonol. Rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fod yn effro i'r effaith ddinistriol bosibl y gallai mewnforio deunydd planhigion neu hadau heb eu rheoleiddio yn anghyfreithlon ei chael drwy danseilio bioddiogelwch.

ASTUDIAETH ACHOS
Yr Undeb Ewropeaidd

Yr Undeb Ewropeaidd yw partner masnachu mwyaf y DU, ac mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir yn achos Cymru. Yn 2024, allforiwyd 76% o nwyddau amaethyddol Cymru i'r UE, o gymharu â'r cyfartaledd o 58% ar draws y DU.

Ers 2019, mae allforion y sector amaethyddol i Ewrop wedi gostwng, a phriodolir hyn yn bennaf i'r costau a'r amser ychwanegol sy'n gysylltiedig â gofynion a gwiriadau ffiniau ar ôl Brexit.

Mae NFU Cymru wedi rhoi croeso gofalus i ymdrechion Llywodraeth y DU i ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE, ac i'r trafodaethau sydd â'r nod o sicrhau cytundeb newydd ar Fesurau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS). Er nad dyma'r dull a ffefrir gennym, mae ffermwyr Cymru wedi galw ers tro am gael gwared ar y gwiriadau ffiniau costus a'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â masnach amaeth-fwyd, sydd wedi eu rhoi dan anfantais yn y farchnad Ewropeaidd. Er y bydd yn cymryd amser, byddai dileu gwiriadau drwy gytundeb SPS o fudd i gynhyrchwyr âr a garddwriaethol sy'n mewnforio planhigion ifanc a hadau. Byddai hefyd yn helpu i ailsefydlu cadwyni cyflenwi a'r farchnad ar gyfer cynhyrchion amaethyddol Prydeinig yn Ewrop.

Er y gall ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE hwyluso gwell masnach â'n marchnad fwyaf, rhaid cael cyfnod pontio effeithiol ar gyfer unrhyw aliniad dynamig sy'n rhan o gytundeb iechydol a ffytoiechydol. Gallai alinio â rheolau'r UE ar gynhyrchion diogelu planhigion yn sydyn, heb gyfnod pontio, gostio'n ddrud i'r sectorau âr a garddwriaethol.

Yn ystod cyfnod aelodaeth y DU o'r UE, roedd materion megis amaethyddiaeth a'r amgylchedd, er eu bod wedi'u datganoli, yn cael eu rheoli i raddau helaeth gan gyfraith yr UE. Roedd hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru i weithredu yn y meysydd hyn. Yn ei hanfod, mae Brexit wedi adfer gallu Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru i weithredu yn y meysydd hyn, a oedd gynt i bob pwrpas y tu hwnt i'w cwmpas.


Mae NFU Cymru yn glir, lle gallai aliniad dynamig effeithio ar feysydd polisi datganoledig a phwerau deddfu, neu hyd yn oed eu cipio, fod yn rhaid ceisio cydsyniad y Senedd a chynnal ymgysylltiad helaeth a chynnar â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig os cyflwynir deddfwriaeth cynradd yn San Steffan i roi aliniad dynamig ar waith. Rhaid hefyd rhoi pwys digonol ar safbwyntiau Cymru, fel y'u cynrychiolir gan Weinidogion Cymru, yng Ngrŵp Rhyngweinidogol y DU a'r UE.

Mae ffermwyr âr a garddwriaethol Cymru hefyd yn galw am:

Drefniant pontio ar gyfer rheolau ynghylch arferion organig, chynhyrchion diogelu planhigion a bywleiddiol, fel nad yw ffermwyr Cymru yn wynebu newid sydyn heb gyfnod pontio.

Diogelu'r cynnydd yng Nghymru ac yn y DU o ran mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a mabwysiadu technoleg bridio manwl, gan gefnogi uchelgais y sectorau i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy, cydnerth ac arloesol.

Mae Llywydd NFU Cymru, Abi Reader, wedi teithio'n rheolaidd i Frwsel ar ran ein haelodau ac amaethyddiaeth Cymru. Dywedodd: *"Mae NFU Cymru, drwy ein gwaith ym Mae Caerdydd ac yn San Steffan, ynghyd â'n swyddfa ym Mrwsel, yn parhau i sicrhau bod ein sectorau âr a garddwriaethol yn cael eu cynrychioli ar bob lefel ac ar bob cyfle wrth i'r berthynas rhwng y DU a'r UE gael ei hailosod."*





ARLOESI AR GYFER BYD SY'N NEWID

Mae gwelliannau mewn cynhyrchiant cnydau, bridio planhigion, rheoli plâu ac arferion cynaliadwy wedi helpu amaethyddiaeth Cymru i ddarparu cynnyrch o ansawdd uchel ar gyfer proseswyr bwyd, gweithgynhyrchwyr a manwerthwyr.

Dan arweiniad ffermwyr arloesol a sefydliadau fel IBERS, mae Cymru wedi bod yn arweinydd byd-eang ym maes bridio planhigion ers dros ganrif. Fodd bynnag, mae angen cynnydd parhaus er mwyn i'r sectorau hyn barhau'n gystadleuol yn wyneb hinsawdd sy'n newid.

Mae gan Gymru'r potensial a'r gallu amgylcheddol i addasu ac ymdopi'n well â hinsawdd sy'n newid o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae Cymru'n llai agored i sychder a straen gwres na rhannau eraill o'r DU ac Ewrop, gan greu cyfleoedd newydd i ehangu'r arwynebedd a ddefnyddir i dyfu cnydau. Gellir lliniaru'r heriau sy'n deillio o dymheredd cynhesach, megis cynnydd mewn plâu a chlefydau, drwy arloesi newydd, gan alluogi ffermwyr Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd hyn yn hyderus. Mae gwell mynediad at dechnolegau ac arferion newydd yn hanfodol er mwyn gwireddu potensial ac uchelgais ffermwyr âr a garddwriaethol Cymru.

Byddai mynediad at offer bridio manwl wedi'u targedu ar gyfer cnydau yn cynnig amrywiaeth o fanteision. Er enghraifft, gall golygu genynnau hybu'r broses o gynhyrchu bwyd carbon isel sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd drwy fynd i'r afael yn naturiol â chlefydau planhigion a phlâu sy'n bygwth cnydau, yn ogystal â lleihau'r angen am fewnbynnau fel gwrteithiau a phlaladdwyr. Mae golygu genynnau yn wahanol i addasu genetig gan mai dim ond gwneud newidiadau manwl i DNA presennol y planhigyn ei hun y mae, heb ychwanegu deunydd genetig o ffynhonnell allanol. Byddai'r broses hon yn galluogi gwell defnydd o adnoddau ar y fferm ac yn cynyddu gallu cnydau i wrthsefyll digwyddiadau tywydd eithafol, fel sychder a llifogydd, y disgwylir iddynt ddod yn fwy cyffredin.

Mae arloesi o'r fath hefyd yn ymestyn i rôl y ddau sector wrth gynnal sector da byw Cymru. Mae datblygiadau ym maes glaswelltau a chnydau protein yn cynnig y potensial i wella cynnyrch a chynnwys maethol porthiant ar gyfer gwartheg a defaid, gan gryfhau ymwrthedd i glefydau ac iechyd y pridd ar yr un pryd.

Rhaid rhoi sylw hefyd i'r cyfleoedd cynyddol sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd mewn amaethyddiaeth. Yn benodol, gall defnyddio dronau ar ffermydd yng Nghymru drawsnewid y sectorau âr a garddwriaethol. Dim ond rhai o'r arferion cynaliadwy a gynigir gan y dechnoleg hon sy'n datblygu'n gyflym yw monitro cnydau a glaswelltir, gwasgaru hadau'n fanwl gywir a monitro bywyd gwyllt gwarchodedig. Mae NFU Cymru wedi bod yn ymgyrchu i ganiatáu defnyddio dronau i wasgaru cynhyrchion diogelu planhigion o'r awyr, arfer sy'n cael ei gyfyngu gan y rheoliadau presennol. Gallai hyn drawsnewid ffermio âr yng Nghymru drwy ganiatáu i dronau gael eu rhaglennu i dargedu'n fanwl gywir, gan wasgaru'r swm cywir o gynnyrch yn y man cywir.

ASTUDIAETH ACHOS

IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth

Mae Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn ganolfan ymchwil a gydnabyddir yn fyd-eang, sydd wedi bod yn gweithio i wella amaethyddiaeth glaswelltir a diogelwch bwyd ers sefydlu Gorsaf Bridio Planhigion Cymru ym 1919.

Wedi'i leoli ar Gampws Gogerddan, hwn yw'r unig sefydliad yng Nghymru sy'n ymroddedig i ymchwil amaethyddol, a'r unig sefydliad ymchwil sydd â'i bencadlys yng Nghymru ac sy'n cael ei ariannu'n strategol gan Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol UKRI. Mae'r astudiaethau achos isod yn dangos detholiad yn unig o ehangder ac effaith ymchwil IBERS.

Gwell Mathau o Geirch: Cynyddu Cynnyrch, Ansawdd a'r Manteision i Iechyd Pobl Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae gwyddonwyr IBERS wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o drawsnewid cynhyrchu ceirch yn y DU drwy ddatblygu mathau gwell sydd bellach yn cyfrif am fwy na 95% o gynhyrchiant ceirch gaeaf y DU. Mae'r rhaglen fridio yn canolbwyntio ar ddarparu mathau o geirch plisgog a cheirch noeth sy'n cynhyrchu cnwd uchel, yn wydn ac o ansawdd uchel ar gyfer y marchnadoedd bwyd a bwyd anifeiliaid. Drwy gyfuno datblygiadau ym meysydd geneteg, ffisioleg ac agronomeg, mae ymchwilwyr wedi datblygu mathau â gwellt byrrach sydd â gwell ymwrthedd i gwympo, goddefiant i glefydau ac effeithlonrwydd wrth ddefnyddio maetholion. Mae hyn yn helpu ffermwyr i wella cynhyrchiant gan leihau effeithiau amgylcheddol ar yr un pryd. Mae'r mathau hyn, sy'n cael eu marchnata gan Senova, hefyd yn cefnogi'r galw cynyddol am fwydydd iach sy'n seiliedig ar blanhigion, oherwydd eu cynnwys uchel o ffibr a'u lefelau uwch o gyfansoddion buddiol megis beta-glwcan. Gydag wyth math o geirch IBERS ar Restrau Argymelledig AHDB, a gwaith parhaus i wella ansawdd y grawn a'i wydnwch yn wyneb sychder, gwres a dirlawnder, mae'r rhaglen yn parhau i gryfhau diogelwch bwyd, proffidioldeb ffermydd ac amaethyddiaeth gynaliadwy.

Prosiect Protein Pys Cynaliadwy: Lleihau'r Ddibyniaeth ar Fewnforion Soia

Mae IBERS yn cydweithio â Germinal Horizon, Canolfan John Innes a PGRO ar brosiect gwerth £1 filiwn i ddatblygu mathau gwell o bys a all gynnig dewis amgen cynaliadwy, a dyfir yn y DU, i soia a fewnforir ar gyfer pobl yn ogystal â da byw. Gan ddefnyddio technegau bridio uwch, mae'r ymchwilwyr yn cael gwared ar enynnau sy'n gysylltiedig â blas annymunol, yn ogystal â chyfansoddion sy'n lleihau treuliadwyedd. Y nod yw cynhyrchu pys sydd â phroffil blas mwy niwtral, gan gadw eu gwerth maethol uchel. Gallai'r prosiect 'Protein Pys' leihau dibyniaeth y DU ar soia a fewnforir, cynyddu'r defnydd o godlysiau sy'n sefydlogi nitrogen mewn cylchdroadau cnydau, lleihau'r angen am wrtaith a gwella diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Ymchwil Bridio Cnydau a Bwerir gan Ddeallusrwydd Artiffisial

Mae ymchwilwyr yn IBERS ac Adran Gyfrifiadureg y Brifysgol wedi datblygu offer deallusrwydd artiffisial arloesol a allai gyflymu'n sylweddol y gwaith o ddatblygu mathau gwell o gnydau. Yn draddodiadol, bu'n rhaid i fridwyr planhigion fesur miloedd o godennau hadau a ffrwythau â llaw er mwyn nodi nodweddion sy'n gysylltiedig â chynnyrch uwch, gwell gwytnwch a gwell cynhyrchiant. Gall y broses hon fod yn araf, yn gostus ac yn agored i gamgymeriadau dynol. Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, datblygodd ymchwilwyr yn Aberystwyth MorphPod a DeepCanola, sef offer dadansoddi delweddau sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial ac sy'n mesur nodweddion codennau hadau yn awtomatig, gan gynnwys hyd, lled, arwynebedd a chyfaint a ragwelir. Mae'r dechnoleg yn galluogi bridwyr i nodi nodweddion gwerthfawr yn gyflymach ac i gyflymu'r gwaith o ddatblygu mathau o gnydau sy'n cynhyrchu cnwd uwch ac sy'n fwy gwydn.

Gwella'r Gallu i Storio Carbon yn y Pridd drwy Fridio Miscanthus

Mae ymchwilwyr yn IBERS yn datblygu mathau newydd o Miscanthus a all helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn y pridd, gan gynnal cynnyrch biomas uchel ar yr un pryd. Mae'r canfyddiadau'n darparu tystiolaeth bwysig y gellir cynllunio cnydau biomas y dyfodol i sicrhau manteision amgylcheddol ochr yn ochr ag amaethyddiaeth gynhyrchiol, gan gefnogi uchelgeisiau sero net, cael gwared ar nwyon tŷ gwydr a defnydd cynaliadwy o dir. Gall Miscanthus hefyd fod yn ddeunydd gwasarn cost isel a chynaliadwy ar gyfer da byw.

Dywedodd yr Athro Iain Donnison, Pennaeth IBERS: "Drwy ddatblygu cnydau gwell, hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau digidol, cryfhau cynaliadwyedd amgylcheddol, cefnogi cynhyrchiant ffermydd a chyfleu'r datblygiadau hyn drwy ein gweithgareddau ymestyn ac allgymorth, mae IBERS yn helpu i sicrhau bod amaethyddiaeth Cymru yn parhau'n wydn, yn gystadleuol ac yn gallu ymateb i heriau diogelwch bwyd a'r hinsawdd yn y dyfodol."

O'R FFERM I'R FFORC

HWYLUSO CYFLEOEDD I DYFU

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynhyrchwyr âr a garddwriaeth wedi gweld elw'n gostwng, costau mewnbynnau hanfodol yn cynyddu'n aruthrol, a rhai o'r cynnyrch cynhaeaf isaf a welwyd yn y cof diweddar.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch setliad cyllido amlflwydd wedi'i neilltuo ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) hyd at 2030 yn cyfrannu at helpu ffermwyr i ymdopi â'r heriau hyn sy'n ymwneud â'r hinsawdd, materion geowleidyddol a'r farchnad. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ddyrannu 70% o gyllideb y CFfC drwy'r Haen Gyffredinol, yn enwedig yr elfen gwerth cymdeithasol.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod nifer y ffermydd yng Nghymru a wnaeth gais naill ai am y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) a oedd eisoes yn bodoli neu am Haen Gyffredinol y CFfC yn 2026 wedi'i rannu bron yn gyfartal, sef 50/50. Mae ein cynhyrchwyr âr a garddwriaeth yn teimlo bod mynediad at y cynllun yn cael ei gyfyngu gan yr opsiynau sydd ar gael i fodloni gofynion cynefin Haen Gyffredinol y CFfC. Mae ganddynt bryderon hefyd ynghylch sut y bydd y data a ddarperir i gyflawni UA1 yn cael ei storio a'i rannu. Mae angen datblygu'r cynllun ymhellach er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag manteisio arno, fel bod y cynllun yn gweithio i bob sector ac ym mhob rhan o Gymru.

Mae angen cymorth buddsoddi drwy Haen Opsiynol y cynllun i gefnogi cynhyrchwyr âr a garddwriaeth wrth iddynt barhau i addasu a datblygu. Yn benodol, mae cymorth buddsoddi cyfalaf ar gyfer seilwaith ar ffermydd yn hanfodol, yn ogystal â system gynllunio sy'n galluogi datblygiad, ac mae angen diwygio'r system honno. Er mwyn gwireddu potensial y ddau sector, mae angen cymorth ariannol hefyd i hwyluso buddsoddiadau yn y datblygiadau arloesol diweddaraf, megis technoleg dronau.

O ystyried y cyfnodau eithafol o dywydd gwlyb a sych yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae angen inni gasglu'n well y glaw helaeth a gawn yng Nghymru am ran helaeth o'r flwyddyn, fel y gallwn ei ddefnyddio ar adegau o brinder. Rhaid rhoi blaenoriaeth i fynediad at ddŵr ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae angen cymorth i fuddsoddi mewn cyfleusterau storio dŵr ar ffermydd ac mewn cronfeydd dŵr ar raddfa briodol, yn ogystal â symleiddio'r prosesau cynllunio a rheoleiddio sy'n gysylltiedig â gwneud cais am seilwaith dŵr a'i ddefnyddio ar ffermydd. Mae cronfeydd dŵr yn arafu llif dŵr ac yn ei storio ar adegau pan fo gormodedd, gan gynnal cynhyrchu bwyd ar adegau o brinder dŵr, yn ogystal â sicrhau manteision sylweddol i fioamrywiaeth.

Mae angen gweithredu hefyd i gymell a chefnogi cynhyrchu cnydau protein, megis cymysgeddau grawn, ffa, pys a bysedd y blaidd. Byddai polisi sy'n annog pobl i dyfu cnydau protein yn diogelu cynhyrchu bwyd ac yn sicrhau manteision amgylcheddol sylweddol drwy wella iechyd y pridd, cefnogi'r defnydd ehangach o arferion rheoli plâu integredig cynaliadwy, a lleihau'r ddibyniaeth ar gynhyrchion diogelu planhigion. Byddai darparu porthiant sy'n cael ei gynhyrchu'n ddomestig, sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac sy'n gyfoethog mewn protein hefyd yn cefnogi uchelgeisiau'r gadwyn gyflenwi ehangach o ran datgarboneiddio.


Mae NFU Cymru yn cefnogi cyflwyno taliad protein, a fyddai ar gael o fewn elfen cynhyrchu cynaliadwy Haen Opsiynol y CFfC, er mwyn cynyddu'r broses o gynhyrchu cnydau protein yng Nghymru.

Rhaid i'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Strategaeth Fwyd Genedlaethol Llywodraeth Cymru i Gymru gydnabod potensial cynhyrchwyr âr a garddwriaeth ac adlewyrchu ein huchelgeisiau ar gyfer twf. Mae hyn yn cynnwys targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu cnydau domestig a chynnyrch garddwriaethol, wedi'u cefnogi gan fframwaith polisi a rheoleiddio sy'n galluogi twf cynhyrchiol a chynaliadwy yn y sectorau. Rhaid i'r strategaeth gydnabod hefyd y cyfleoedd sylweddol sy'n gysylltiedig â chaffael cyhoeddus, gan sicrhau bod cyfran uwch o gynnyrch o Gymru yn cael ei weini mewn ysbytai, ysgolion ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

Ers blynyddoedd lawer, mae baich biwrocratiaeth wedi ychwanegu at gostau ac wedi llesteirio arloesedd ar ein ffermydd teuluol. Rhaid i'r Adolygiad Annibynnol parhaus o Reoleiddio ar Ffermydd sicrhau newid ystyrlon i'r sector.

Er bod newidiadau wedi'u gwneud i bolisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â Rhyddhad Eiddo Amaethyddol a Rhyddhad Eiddo Busnes, mae NFU Cymru yn parhau i wrthwynebu'r polisi a'i effaith ar ffermydd teuluol Cymru yn sylfaenol.

Ar y cyfan, mae NFU Cymru yn credu bod cyfleoedd sylweddol yn bodoli i wireddu uchelgais y sectorau ac i ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen i ddatgloi potensial llawn cynhyrchu âr a garddwriaethol er budd pobl a chymunedau Cymru.



ASTUDIAETH ACHOS

Richard a Lyn Anthony ffermwyr âr a chontractwyr yn Fferm Sealands, Morgannwg



I lawer o bobl o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru a'r tu allan iddo, mae Richard a Lyn Anthony yn wynebau cyfarwydd, ar ôl ennill clod dros fwy na dau ddegawd am eu gwaith ym maes ffermio âr adfywiol ar hyd arfordir Môr Hafren.

Ar ôl gadael busnes ffermio'r teulu, llwyddodd Richard a Lyn i sicrhau cytundeb tenantiaeth ger Pen-y-bont ar Ogwr, ac o fewn pythefnos cynigiwyd tenantiaeth tair blynedd iddynt ar 110 erw. Erbyn hydref 2001, roeddent yn ffermio 1,600 erw.

Heddiw, mae Richard a Lyn yn tyfu dros 2,000 erw o wenith, indrawn, rêp had olew a bys y blaidd, gyda rhagor o dir wedi'i neilltuo ar gyfer glaswellt. Caiff y grawn ei werthu i felin porthiant yng Nghaerfyrddin, tra bo'r indrawn a'r silwair yn cael eu gwerthu i ffermwyr llaeth lleol. Mae'r penderfyniad i dyfu cnwd sydd mor heriol â bys y blaidd, sef ffynhonnell brotein amgen i soia sy'n gosod nitrogen, yn un enghraifft yn unig o frwdfrydedd Richard a Lyn dros arloesi, treialu a mabwysiadu datblygiadau newydd.

Er gwaethaf llwyddiannau haeddiannol y teulu a'u henw da am ffermio cynaliadwy, penderfynodd y teulu beidio ag ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026, gan nodi pryderon ynghylch y gofynion cynefin ar gyfer ymuno â'r Haen Gyffredinol. Mae'r ffaith bod un o'r ffermydd âr uchaf ei pharch yng Nghymru yn teimlo na all gymryd rhan ym mhrif gynllun y Llywodraeth yn arwydd pwysig o'r angen i ailystyried a datblygu hygyrchedd y cynllun.

Ers cychwyn y cynllun, mae Richard wedi pwysleisio bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau perthnasol weithio gyda'r gymuned amaethyddol i ddod o hyd i ffordd o sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithio i bob rhan o Gymru ac i bob sector ffermio. Gan rannu ei weledigaeth gadarnhaol, dywedodd: *"Rwy'n credu'n gryf y gallwn ni i gyd gyflawni'r hyn rydym am ei gael o'r cynllun, os oes gennym yr agwedd gywir a chydweithrediad Llywodraeth Cymru. Mae modd gwneud hynny. Rhaid i'r cynllun gydnabod a gwobrwyo'r llu o gamau y mae ffermwyr eisoes yn eu cymryd i gyfuno amaethyddiaeth gynhyrchiol ag arferion cynaliadwy."*

PRIF GEISIADAU

Er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y sectorau âr a garddwriaeth, mae NFU Cymru yn galw am y canlynol:

Polisi a Rheoleiddio

- Cynyddu'r gyllideb hirdymor, amlflwyddyn, wedi'i neilltuo ar gyfer ffermio yng Nghymru i £500 miliwn y flwyddyn er mwyn rhoi cyfrif am chwyddiant, gan gynnal y rhaniad 70/30 ar gyfer Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn hygyrch i bob ffermwr gweithredol, a bod y cynllun yn datblygu fel ei fod yn ddeniadol ac yn gyraeddadwy i gynhyrchwyr âr a garddwriaethol. Dylai hyn gynnwys canolbwyntio ar ehangu'r opsiynau sydd ar gael i fodloni gofynion cynefin yr Haen Gyffredinol ac adolygu'r gofynion o ran rhannu data.
- Yn unol â Strategaeth Brotein i Gymru, gyda'r nod o gynyddu faint o brotein a gynhyrchir yn ddomestig, cyflwyno taliad protein o fewn elfen cynhyrchu cynaliadwy Haen Opsiynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Darparu cymorth buddsoddi drwy'r Haen Opsiynol ar gyfer seilwaith a'r technolegau diweddaraf, er mwyn cefnogi cynhyrchwyr âr a garddwriaethol wrth iddynt barhau i addasu a datblygu.
- Rhoi blaenoriaeth i ddŵr ar gyfer cynhyrchu bwyd, gan gefnogi buddsoddiad mewn cyfleusterau storio dŵr ar ffermydd, seilwaith dyfrhau a mesurau eraill sy'n cryfhau gwydnwch hinsoddol.
- Diwygio'r system gynllunio, gan gynnwys dileu rhwystrau cynllunio a rheoleiddiol sy'n ymwneud â storio dŵr ar ffermydd a seilwaith arall.
- Sicrhau bod Strategaeth Fwyd Genedlaethol Cymru yn canolbwyntio ar dwf marchnadoedd domestig ac allforio, ac yn cynnwys targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu âr a garddwriaethol yng Nghymru.
- Sicrhau bod yr Adolygiad Annibynnol o'r Baich Biwrocrataidd ar Ffermydd Teuluol yn mynd i'r afael â meysydd lle ceir dyblygu, heb oedi, ac yn dileu'r beichiau a nodwyd.
- Cefnogi ymdrechion y diwydiant i wrthdroi'r Dreth Fferm Deuluol yn llwyr drwy adfer Rhyddhad Eiddo Amaethyddol a Rhyddhad Eiddo Busnes yn llawn.
- Rhaid i bolisïau Llywodraeth Cymru ar yr hinsawdd a meysydd ehangach roi blaenoriaeth i ddiogelwch bwyd, ac ni ddylent arwain at symud cynhyrchu dramor na newid defnydd tir ar draul cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig.

Cadwyni Cyflenwi

- Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i gynyddu cyfran y bwyd a gaffaelir o ffermydd Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus o 23% i o leiaf 50% erbyn diwedd tymor presennol y Senedd. Rhaid iddi hefyd gyflawni'r ymrwymiad y bydd 25% o'r llysiau a weinir yn ysgolion Cymru yn dod o Gymru erbyn 2030.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi byrrach a mwy gwydn, ynghyd â chapasiti prosesu lleol.
- Adeiladu ar y camau gweithredu a nodwyd gan yr ymgynghoriad Perthnasoedd Cytundebol y DU yn y Sector Cnydau Cyfunadwy, a chyflwyno'r ddeddfwriaeth briodol ar gyfer contractau grawn yn y dyfodol heb oedi.
- Gweithio gyda Defra a rhanddeiliaid ledled y DU i greu a gweithredu un pasbort digidol sy'n eiddo i'r diwydiant, gan ddisodli'r nifer o systemau presennol sy'n eiddo i fasnachwyr unigol ac yn cael eu rheoli ganddynt.
- Sicrhau bod pob porth mynediad i Gymru yn cynnal y safonau bioddiogelwch uchaf ac yn cael adnoddau priodol, gan gynnwys camau gorfodi llym yn erbyn mewnforion anghyfreithlon.

Masnach Ryngwladol

- Rhaid i Lywodraeth y DU fabwysiadu dull cytbwys rhwng amaethyddiaeth a sectorau eraill o economi'r DU mewn trafodaethau masnach. Dylai fod yn barod i wrthod consesiynau amaeth-fwyd pellach ac yn wyliadwrus wrth fonitro unrhyw ganlyniadau niweidiol.
- Rhaid i drafodaethau ar gytundebau masnach yn y dyfodol gynnwys deialog gynnar a pharhaus rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru o'r cychwyn cyntaf. Rhaid i Bwyllgor Cyfansoddiad, Cyfiawnder a Materion Allanol y Senedd fod yn barod i weithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant i graffu ar effaith cytundebau masnach ar amaethyddiaeth Cymru.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i nodi cyfleoedd i gynyddu'r galw am gynhyrchion âr a garddwriaethol o Gymru, gartref a thramor.
- O ran ailosod y berthynas rhwng y DU a'r UE a'r cytundeb ar fesurau iechydol a ffytoiechydol:
    - Sefydlu trefniant trosiannol ar gyfer rheolau ynghylch arferion organig, chynhyrchion diogelu planhigion a bioleiddiol, fel na fydd ffermwyr Cymru yn wynebu sefyllfa ymyl dibyn.
    - Diogelu'r cynnydd a wnaed yng Nghymru a'r DU wrth fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a datblygu technoleg bridio manwl, gan gefnogi uchelgais y sectorau i sicrhau dulliau cynhyrchu bwyd cynaliadwy, gwydn ac arloesol.
    - Pan allai aliniad deinamig â'r UE ymwneud â meysydd polisi datganoledig a deddfu, rhaid ceisio cydsyniad y Senedd a chynnal ymgysylltiad helaeth a chynnar â Llywodraeth Cymru.

Arloesi a Thechnoleg

- Darparu mynediad at dechnolegau bridio manwl a golygu genynnau wedi'u targedu.
- Caniatáu defnyddio technoleg dronau i wasgaru Cynhyrchion Diogelu Planhigion sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd, ac ystyried cefnogi'r broses o brynu'r dechnoleg hon drwy gynlluniau cymorth y llywodraeth.